## Gwasanaeth ar y thema: Dal ati i obeithio

### Galwad i addoli: Salm 95. 6 a 7

Dewch, addolwn a syrthiwn i lawr:
a gostyngwn gerbron yr Arglwydd ein gwneuthurwr.
Canys efe yw ein Duw ni
a ninnau ei bobl ef a defaid ei borfa.
Heddiw os gwrandewch ar ei leferydd cewch brofi ei nerth.

**Gweddi:**
Ein Tad Nefol
Diolch i ti am y cyfle a'r fraint
o gael d'addoli di yma ar yr aelwyd.
Helpa ni i gofio nad ydym ar ein pen ein hunain,
ond ein bod yng nghwmni dy bobl di drwy'r byd
sy'n galw arnat ac yn ceisio dy wyneb.
Gad i ni gael bendith a nerth drwy'r oedfa yma.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu, Amen.

Rydym yn byw mewn cyfnod o bryder oherwydd lledaeniad Covid-19 a hefyd mewn cyfnod o newid mawr i'n patrwm byw. Wrth i ni glywed am effaith y feirws mewn mannau eraill a chael ein hannog i beidio mynd allan os nad oes raid, rydym yn naturiol yn bryderus. Gadewch i ni ddarllen geiriau Salm 130 sy'n dechrau gyda chri o'r galon mewn dyddiau anodd.

### Darlleniad: Salm 130: 1-2, 5-7

***1*** O'r dyfnderau y gwaeddais arnat, O ARGLWYDD.
***2*** Arglwydd, clyw fy llef;
bydded dy glustiau'n agored
i lef fy ngweddi.
***3*** Os wyt ti, ARGLWYDD, yn cadw cyfrif o gamweddau,
pwy, O Arglwydd, a all sefyll?
***4*** Ond y mae gyda thi faddeuant,
fel y cei dy ofni.
***5*** Disgwyliaf wrth yr ARGLWYDD; y mae fy enaid yn disgwyl,
a gobeithiaf yn ei air;
***6*** y mae fy enaid yn disgwyl wrth yr Arglwydd
yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore,
yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore.
***7*** O Israel, gobeithia yn yr ARGLWYDD,
oherwydd gyda'r ARGLWYDD y mae ffyddlondeb,
a chydag ef y mae gwaredigaeth helaeth.

**Gweddi**
Dad Nefol
Clyw ein cri dros bawb sydd wedi eu heffeithio gan Covid-19,
Gweddiwn dros y rhai sydd wedi colli anwyliaid

a’r rhai sy’n sâl yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi.
Cyflwynwn hefyd y rhai hynny sydd mewn cartrefi gofal
heb fedru derbyn ymwelwyr
a phawb sy’n hunan ynysu.
Cyflwynwn bawb sy’n teimlo’n unig neu’n bryderus
a chyflwynwn ein hunain
ein hamgylchiadau a’n teimladau i ti.
Diolch dy fod ti yn Dduw
ffyddlon sy’n gwrando ein cri.
Gweddïwn am dy gynhaliaeth a’th nerth
i bawb yn y dyddiau anodd hyn.
Gofynnwn hyn yn enw ein hachubwr
Iesu Grist. Amen.

Gawn ni ddweud Gweddi’r Arglwydd: Ein Tad…

Mae’r darlleniad nesaf yn dod o Lyfr y proffwyd Eseciel, ac mae’n ddarn cyfarwydd iawn. Roedd Eseciel yn byw ac yn proffwydo tua’r un amser a’r proffwyd Jeremeia ond tra bod Jeremeia yn Jerwsalem, roedd Eseciel gyda’r garfan o’r genedl oedd yn gaeth ym Mabilon.
Am y rhan helaethaf o’r llyfr, mae’r proffwyd yn rhybuddio pobl Dduw fod Jerwsalem yn mynd i syrthio dan law’r gelyn. Roedd pobl Dduw  wedi cyrraedd y gwaelod - doedd ganddyn nhw ddim gobaith i’r dyfodol nac egni ar ôl i frwydro. Maen nhw’n hollol ddiymadferth ac ar chwâl. Dyma pryd mae Eseciel yn rhannu dameg gyda nhw - breuddwyd ddramatig sy’n dweud rhywbeth pwysig am enbydrwydd eu hamgylchiadau ond hefyd am y ffordd syfrdanol mae Duw yn mynd i’w helpu. Wrth i ni wrando - gadewch i ni ofyn beth y mae dameg ‘Dyffryn yr esgyrn sychion’ yn dweud wrthon ni am sut i ymateb i’r argyfwng.

**Darlleniad Eseciel 27: 1-14**

***1*** Daeth llaw yr ARGLWYDD arnaf, ac aeth â mi allan trwy ysbryd yr ARGLWYDD a'm
gosod yng nghanol dyffryn a oedd yn llawn esgyrn. ***2*** Aeth â mi'n ôl a blaen o'u
hamgylch, a gwelais lawer iawn o esgyrn ar lawr y dyffryn, ac yr oeddent yn sychion
iawn. ***3*** Gofynnodd imi, “Fab dyn, a all yr esgyrn hyn fyw?” Atebais innau, “O Arglwydd
DDUW, ti sy'n gwybod.” ***4*** Dywedodd wrthyf, “Proffwyda wrth yr esgyrn hyn a dywed
wrthynt, ‘Esgyrn sychion, clywch air yr ARGLWYDD. ***5*** Fel hyn y dywed yr Arglwydd
DDUW wrth yr esgyrn hyn: Wele, fe roddaf fi anadl ynoch, a byddwch fyw. ***6*** Rhoddaf
ewynnau arnoch, paraf i gnawd ddod arnoch a rhoddaf groen drosoch; rhoddaf anadl
ynoch, a byddwch fyw. Yna byddwch yn gwybod mai myfi yw'r ARGLWYDD.’ ”
***7*** Proffwydais fel y gorchmynnwyd imi. Ac fel yr oeddwn yn proffwydo daeth sŵn, a
hefyd gynnwrf, a daeth yr esgyrn ynghyd, asgwrn at asgwrn. ***8*** Edrychais, ac yr oedd
gewynnau arnynt, a chnawd hefyd, ac yr oedd croen drostynt, ond nid oedd anadl
ynddynt. ***9*** Yna dywedodd wrthyf, “Proffwyda wrth yr anadl; proffwyda, fab dyn, a
dywed wrth yr anadl, ‘Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW: O anadl, tyrd o'r pedwar
gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, iddynt fyw.’ ” ***10*** Proffwydais fel y
gorchmynnwyd imi, a daeth anadl iddynt ac aethant yn fyw, a chodi ar eu traed yn
fyddin gref iawn.
***11*** Yna dywedodd wrthyf, “Fab dyn, holl dŷ Israel yw'r esgyrn hyn. Y maent yn dweud,
‘Aeth ein hesgyrn yn sychion, darfu am ein gobaith, ac fe'n torrwyd ymaith.’ ***12*** Felly,

proffwyda wrthynt a dywed, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW: O fy mhobl, yr wyf am agor eich beddau a'ch codi ohonynt, ac fe af â chwi'n ôl i dir Israel. ***13*** Yna, byddwch chwi fy mhobl yn gwybod mai myfi yw'r ARGLWYDD, pan agoraf eich beddau a'ch codi ohonynt. ***14*** Rhoddaf fy ysbryd ynoch, a byddwch fyw, ac fe'ch gosodaf yn eich gwlad eich hunain. Yna byddwch yn gwybod mai myfi'r ARGLWYDD a lefarodd, ac mai myfi a'i gwnaeth, medd yr ARGLWYDD.' "

**Myfyrdod: Dal ati i obeithio**
Mae Covid-19 yn lledu yn gyflym a ninnau'n clywed am niferoedd cynyddol yn dal yr haint a rhai o'r rheiny'n marw. Er mwyn ceisio atal y lledaeniad, mae teuluoedd yn cael eu rhannu oddi wrth ei gilydd a busnesau yn gorfod cau. Mae gennym ofidiau real am les pobl ac am ddyfodol yr economi. Rydym fel petaem yn aros gan ddisgwyl i'r gwaethaf ddigwydd ac mae bod yn gaeth i'r tŷ yn ein gwneud ni i deimlo'n rhwystredig ac yn ddiymadferth. Ar yr un pryd, mae gweithwyr yr NHS, gofalwyr a gweithwyr allweddol eraill yn mentro allan i wasanaethu pobl eraill. Mae hi'n anodd gwybod yn iawn beth yn union yw'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

Dydy pethau ddim yn edrych yn dda i Eglwys Iesu Grist heddiw chwaith. Dros y degawdau diwethaf rydym wedi gweld cynulleidfaoedd yn lleihau mewn llawer man ac adeiladau'n cau. Mae hi'n gallu ymddangos fel petai hi ar ben arnom. A nawr, am y tro cyntaf yn ein hanes fel eglwysi, rydym wedi gorfod cau drysau ein haddoldai ac wedi gorfod rhoi heibio'r arfer o gyfarfod â'n gilydd dros dro. Pan mae'r drws ar glo, onid yw hi'n edrych ac yn teimlo i ni fel petai'r eglwys wedi dod i ben? "A fydd yr esgyrn sychion marw yma yn gallu dod yn fyw eto?" yw cwestiwn yr Arglwydd i'r proffwyd, a'i gwestiwn i ninnau heddiw. Beth yw'r rhagolygon ar gyfer Eglwys Iesu Grist yn wyneb yr argyfwng yma?

Er bod y ddameg hon yn dechrau gyda golygfa ddigalon, mae Eseciel yn rhannu neges o obaith i bobl Dduw - gyda Duw gallwn ddal ati i obeithio. Mae Duw yn addo y bydd yn anfon ei ysbryd – i gasglu'r rhai a chwalwyd, i roi bywyd ynddyn nhw a'u codi ar eu traed yn un fyddin gref.

Mae'r gair am Ysbryd yn Hebraeg - 'ruah,' yn cyfieithu i dri gair gwahanol yn y Gymraeg. Gall olygu 'anadl' - sef yr hyn rydym angen er mwyn bod yn fyw; gall olygu 'ysbryd' - sef yr hyn sy'n symud y tu mewn i ni; gall olygu 'gwynt,' sef rhywbeth nerthol sy'n chwythu ac yn gyrru pethau ymlaen. Mae Duw yn gallu gweddnewid hyd yn oed y sefyllfaoedd lleiaf addawol. Gyda Duw mae modd dal ati i obeithio -dyna yw neges Eseciel.

Gaf i eich gwahodd chi heddiw i ddal ati i obeithio? Daliwch ati i weddïo'n daer ar Dduw i drawsnewid y sefyllfa ac atal yr haint. Daliwch ati i weddïo dros bobl gwledydd fel yr Eidal a Sbaen, a phobl Lloegr a Llundain a Chymru fach. Gweddïwch dros y busnesau bach a mawr, y byddant yn cael eu hadfer, ac y bydd y tlotaf a'r mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn cael y gofal angenrheidiol. Er yr hyn yr ofnwn a allai ddigwydd – gadewch i ni weddïo y bydd lledaeniad yr haint yn cael ei atal, y bydd brechlyn yn cael e ei ddarganfod a bydd pethau'n dod yn ôl i drefn yn fuan.

A beth am ddyfodol yr Eglwys? Gaf i eich gwahodd chi i gredu addewid Duw, a'i neges o obaith i ni heddiw, ei fod am drawsnewid ein heglwysi marwaidd ni gyda'i Ysbryd.

Mae'n cynnig bywyd newydd Iesu Grist i'w Eglwys, ac arweiniad newydd a nerth newydd i wynebu her heddiw.

Maes o law fe gawn ni fel eglwysi fynd yn ôl i'n hadeiladau, ond gobeithio y byddwn ni wedi dysgu rhywbeth gwerthfawr o'n profiadau. Nid cadw adeilad ar agor sy'n bwysig ond cadw'n calonnau ar agor i Dduw a'i Ysbryd a chadw ein calonnau ar agor i'n gilydd ac i'r anghenus o'n cwmpas. Dyna ydy bod yn eglwys mewn gwirionedd.

**Gweddïwn**
Dad Nefol
Rydym yn gofyn i ti weithredu'n nerthol
i atal lledaeniad y feirws
ac i wella'r rhai sy'n dioddef
Cyflwynwn ddyfodol pobl ein gwlad a'n byd
a dyfodol busnesau bach a mawr
gan weddïo y cant hwy eu hadfywio a'u sefydlogi wedi cyfnod ar gau

Gweddïwn arnat i roi i'th eglwys yma yng Nghymru
fywyd newydd ac arweiniad newydd
a nertha hi i ddyfalbarhau.
Mewn cyfnod pan cawn ein temtio i anobeithio,
helpa ni ddisgwyl yn eiddgar am ateb i'n gweddïau
ac i ymddiried ein dyfodol a dyfodol ein byd i ti.
Clyw ein gweddi
yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.
Amen.

**Y Fendith**
Gras ein Harglwydd Iesu Grist
a chariad Duw
a chymdeithas yr Ysbryd Glân
a fyddo gyda ni oll
o'r awr hon hyd byth.
Amen.